# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 3 Rhagfyr 2020

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod (09:00 - 09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Ymchwiliad ynghylch pwy sy'n cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus?

(09:30 - 10:20)

(Tudalennau 1 - 12)

Gwilym Hughes, Dirprwy Gyfarwyddwr, CADW

Gaynor Legall, Cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Archwiliad o Goffáu yng Nghymru

## Egwyl (10:20 - 10:30)

## 3 Ymchwiliad ynghylch pwy sy'n cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus?

(10:30-11:10)

Hadassah Radway, Race Council Cymru

Cynrychiolydd Mae Bywydau Du o Bwys (i'w gadarnhau)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Egwyl (11:10 - 11:20)

## 4 Ymchwiliad ynghylch pwy sy'n cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus?

(11:20 - 12:00)

Richard Bingley, Save Our Statues

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

(Tudalennau 13 - 15)

5.2 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

(Tudalennau 16 - 23)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 7 Ôl-drafodaeth breifat

(12.00-12.15)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AS

Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

13 Tachwedd 2020

Annwyl Dafydd,

Rwy'n deall eich bod wedi penodi Dr David Banner MBE; Garffild Lloyd Lewis; Helgard Krause; Siân Gale; Richie Turner a Phil Henfrey yn aelodau o Fwrdd Anweithredol Cymru Greadigol, a Catryn Ramasut yn Gadeirydd.

Hoffwn gynnig fy nghefnogaeth lawn i'r Bwrdd Anweithredol ac rwy'n sicr y bydd yr aelodau yn llwyddo i godi proffil Cymru fel lleoliad lle mae diwydiannau creadigol yn ffynnu. Fodd bynnag, rwyf wedi derbyn rhai ymholiadau, drwy Bethan Sayed AS, cyn-Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, ynghylch y broses o benodi aelodau'r Bwrdd.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu ble a phryd yr hysbysebwyd y swyddi hyn, a'r broses ddethol a ddefnyddiwyd i wneud y penodiadau? Mae'r rhai sydd wedi dod ataf fi wedi cwyno nad oeddent yn gwybod bod y penodiadau'n cael eu gwneud, ac nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth am sut i wneud cais am y swyddi.

A oes modd i chi ddarparu'r wybodaeth hon erbyn 20 Tachwedd, er mwyn i mi roi gwybod i'n rhanddeiliaid sydd wedi holi am hyn?

Yn gywir,

**Helen Mary Jones**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

27 Tachwedd 2020

Annwyl Helen,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Tachwedd am Fwrdd Anweithredol Cymru Greadigol.

Pwrpas Bwrdd Cymru Greadigol yw gosod y cyfeiriad ar gyfer cefnogi ac ehangu sector y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn y dyfodol. Wrth lansio Cymru Greadigol ym mis Ionawr 2020, gwnaethom wahodd ceisiadau am swyddi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol. Bydd y penodiadau cyhoeddus diweddar hyn yn hanfodol i ddatblygu syniadau newydd, gan roi dealltwriaeth newydd i ni o'r diwydiant a nodi cyfleoedd newydd ar gyfer datblygu'r sector.

Cafodd panel dethol ei benodi a'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Cynhwysai Ddirprwy Gyfarwyddwr Cymru Greadigol ac Aelod Annibynnol. Fel y disgrifiwyd yn y ddogfen ymgeisio, y meini prawf hanfodol ar gyfer y Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd oedd:

- profiad helaeth o'r diwydiannau creadigol masnachol yng Nghymru;
- dealltwriaeth ddofn o'r problemau sy'n wynebu diwydiannau creadigol Cymru a syniadau ar gyfer helpu'r sector i dyfu; a
- dealltwriaeth o dirwedd datblygu economaidd y llywodraeth/sector cyhoeddus.

Dyma oedd amserlen y broses recriwtio:

- 29 Ionawr – cyhoeddi proses ymgeisio ar gyfer Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol wrth lansio Cymru Greadigol;
- 3 Chwefror – cyhoeddi hysbysebion ar ein tudalen Penodiadau Cyhoeddus https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus ac ar wefan Cymru Greadigol, ar y cyfryngau cymdeithasol a chawsant eu cylchredeg at ein rhestr rhanddeiliaid;
- 28 Chwefror – y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Roedd 30 o geisiadau wedi dod i law;
- 23 Mawrth – oherwydd argyfwng Covid-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y câi ymgyrchoedd penodi a phob proses benodi arall eu hatal yn syth. Nid oedd y broses

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sifftio wedi dechrau felly rhoddwyd gwybod i bob ymgeisydd y byddem yn cadw eu ceisiadau tan y byddai'r broses sifftio'n ailddechrau;

- 26 Awst – daeth y panel ynghyd i sifftio ceisiadau;
- 9 Medi – llwyddiannus yn y sifft – gwahoddwyd 10 ymgeisydd i gyfweliad;
- 10 Medi – aflwyddiannus yn y sifft – anfonwyd 20 o lythyrau a rhoddwyd adborth pan ofynnwyd amdano;
- 21, 22 a 23 Medi – cyfweliadau;
- 6 Hydref – anfon llythyrau penodi;
- 6 Hydref – anfonwyd llythyrau at y rai oedd yn aflwyddiannus yn y cyfweliad.

Gan obeithio bod yr wybodaeth yn ddigonol. Mae croeso ichi gysylltu â mi eto os oes gennych ragor o gwestiynau.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AS

Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

9 Tachwedd 2020

Annwyl Dafydd,

Yn ei gyfarfod diweddaraf ar 5 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y byddem yn ysgrifennu atoch i gael mwy o wybodaeth am nifer o bwyntiau a nodir isod.

**Cefnogaeth i'r sector cerddoriaeth fyw gan Gymru Greadigol**

Rydym wedi croesawu'r cyllid sylweddol gan Gymru Greadigol i leoliadau llawr gwlad o ganlyniad i bandemig COVID-19. Yn gyffredinol, mae hyn wedi bod yn hanfodol i oroesiad y sector yn ystod y cyfnod heriol hwn. Fodd bynnag, clywsom y gallai oedi o ran dosbarthu'r dyraniadau cyllid – yn enwedig pan fydd gan leoliadau cerddoriaeth a lletygarwch gostau i'w talu nawr – arwain at fusnesau'n mynd i'r wal yn y cyfamser.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni yn eich ymateb ynglŷn â'r amserlenni presennol ar gyfer rhoi cyllid i leoliadau, a nodi a oes modd cyflymu'r broses hon. Gyda hyn mewn golwg, gofynnwn hefyd a oes unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i rannu adnoddau staff tîm yr Economi (sydd â'r sgiliau a'r profiad o ran dosbarthu cyllid grant) â Chymru Greadigol am gyfnod penodol er mwyn ymateb i'r pwysau presennol ar gyllid Cymru Greadigol?

**Cyllideb Atodol 2020-21**

Wrth ystyried Cyllideb Atodol 2020-21 byddem yn croesawu ymateb i'r canlynol:

- Mae Chwaraeon Cymru wedi cael £12.5 miliwn ychwanegol, ond roedd y Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden (roeddem ar ddeall mai arian newydd oedd hwn) yn werth £14 miliwn. A fyddai modd rhoi eglurhad o'r anghysondeb hwn?
- Nodwn fod cyllideb gyfalaf Cadw wedi'i gostwng £3.7 miliwn – a allwch egluro'r rhesymau dros y gostyngiad hwn?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

- Mae'r dyraniadau newydd ar gyfer diwylliant a nodir yn y Gyllideb Atodol yn cyfateb i fwy na'r Gronfa Adferiad Diwylliannol sy’n werth £53 miliwn – a fyddai'n bosibl egluro'r rheswm am hyn?

Er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau hyn erbyn 27 Tachwedd.

Yn gywir,



**Helen Mary Jones**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AS

Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

9 Tachwedd 2020

Annwyl Dafydd,

Yn ei gyfarfod diweddaraf ar 5 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y byddem yn ysgrifennu atoch i gael mwy o wybodaeth am nifer o bwyntiau a nodir isod.

**Cefnogaeth i'r sector cerddoriaeth fyw gan Gymru Greadigol**

Rydym wedi croesawu'r cyllid sylweddol gan Gymru Greadigol i leoliadau llawr gwlad o ganlyniad i bandemig COVID-19. Yn gyffredinol, mae hyn wedi bod yn hanfodol i oroesiad y sector yn ystod y cyfnod heriol hwn. Fodd bynnag, clywsom y gallai oedi o ran dosbarthu'r dyraniadau cyllid – yn enwedig pan fydd gan leoliadau cerddoriaeth a lletygarwch gostau i'w talu nawr – arwain at fusnesau'n mynd i'r wal yn y cyfamser.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni yn eich ymateb ynglŷn â'r amserlenni presennol ar gyfer rhoi cyllid i leoliadau, a nodi a oes modd cyflymu'r broses hon. Gyda hyn mewn golwg, gofynnwn hefyd a oes unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i rannu adnoddau staff tîm yr Economi (sydd â'r sgiliau a'r profiad o ran dosbarthu cyllid grant) â Chymru Greadigol am gyfnod penodol er mwyn ymateb i'r pwysau presennol ar gyllid Cymru Greadigol?

**Cyllideb Atodol 2020-21**

Wrth ystyried Cyllideb Atodol 2020-21 byddem yn croesawu ymateb i'r canlynol:

- Mae Chwaraeon Cymru wedi cael £12.5 miliwn ychwanegol, ond roedd y Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden (roeddem ar ddeall mai arian newydd oedd hwn) yn werth £14 miliwn. A fyddai modd rhoi eglurhad o'r anghysondeb hwn?
- Nodwn fod cyllideb gyfalaf Cadw wedi'i gostwng £3.7 miliwn – a allwch egluro'r rhesymau dros y gostyngiad hwn?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

- Mae'r dyraniadau newydd ar gyfer diwylliant a nodir yn y Gyllideb Atodol yn cyfateb i fwy na'r Gronfa Adferiad Diwylliannol sy’n werth £53 miliwn – a fyddai'n bosibl egluro'r rheswm am hyn?

Er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau hyn erbyn 27 Tachwedd.

Yn gywir,

**Helen Mary Jones**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DET/412/20

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

26 Tachwedd 2020

Annwyl Helen,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Tachwedd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 5 Tachwedd, rydych yn holi am ragor o wybodaeth am gymorth i gerddoriaeth fyw gan Cymru Greadigol a'r Chyllideb Atodol 2020-21. Rwyf am ymateb i'ch pwyntiau yn y drefn yr ydych wedi'u codi.

**Cefnogaeth i'r sector gerddoriaeth fyw gan Cymru Greadigol**

*Gall oedi cyn dosbarthu dyraniadau cyllid cymorth Covid-19 – yn enwedig pan fydd gan leoliadau cerddoriaeth a lletygarwch gostau i'w talu nawr – arwain at fusnesau'n mynd i'r wal yn y cyfamser. Gwybodaeth ar yr amserlen ddiweddaraf ar gyfer cael cyllid i leoliadau ac a oes lle i hwyluso'r broses hon.*

Ar wahân i oedi byr pan fu'n rhaid i swyddogion adlewyrchu cyhoeddiad y Canghellor ar ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi o fewn pob cais - yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i osgoi cyllid dwbl – roeddem wedi dechrau gyrru llythyrau cynnig i leoliadau cerddoriaeth yn ystod w/c 9 Tachwedd a gobeithiwn fod wedi cefnogi'r holl fusnesau â oedd yn flaenoriaeth o fewn y pythefnos nesaf.

*Unrhyw ystyriaeth wedi ei roi i rannu adnoddau staff gan dîm yr Economi (sydd â'r sgiliau a'r profiad o ddosbarthu cyllid grant) gyda Cymru Greadigol ar sail amser cyfyngedig i fodloni'r gofynion presennol sy'n cael eu rhoi ar gyllid Cymru Greadigol?*

Roedd swyddogion o dîm Cymru Greadigol yn rhan o dîm dylunio a gweithredu'r Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) a bu'n gweithio gyda chydweithwyr yn Busnes Cymru i gynllunio'r broses ar gyfer y Cronfa Adferiad Diwylliannol Ddiwylliannol (CRF) yn dilyn fframwaith debyg. Gweithiodd nifer o swyddogion yn flaenorol ar draws y pedwar maes allweddol o fewn CRF (creadigol, digwyddiadau, diwylliant a threftadaeth) ar Gam 1 a 2 ERF ac felly roedd ganddynt brofiad o'r systemau a oedd ar waith.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Oherwydd y galw mawr am y gefnogaeth gan CRF bu'n rhaid i swyddogion creu system blaenoriaethu i'r gronfa (rhywbeth nad oedd wedi'i gynnwys yn ERF) i sicrhau bod y cyllid yn cyrraedd y busnesau hynny a ystyriwyd fel y pwysicaf o ran diogelu'r seilwaith creadigol a diwylliannol i'r flwyddyn nesaf, yn unol â nodau cyffredinol y gronfa.

**Cyllideb Atodol 2020-21**

*Mae gan Chwaraeon Cymru £12.5 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu iddo, ond roedd y Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden (roeddem yn deall fod hwn arian newydd) am £14 miliwn. A fyddai'n bosibl egluro'r anghysondeb hwn?*

Mae'r Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden gwerth £14 miliwn yn arian newydd. Dyrannwyd swm o £12.5 miliwn yn uniongyrchol i Chwaraeon Cymru ac mae £1.5 miliwn yn cael ei fuddsoddi a'i neilltuo ar gyfer digwyddiadau chwaraeon drwy'r Gronfa Adfer Diwylliannol. Crynhoir y cyflwyniad yn y Gyllideb Atodol fel a ganlyn:

| Maes Cyflawni | BEL | £m |
|---|---|---|
| Chwaraeon Cymru | 5900 | 12.5 |
| Cymorth ar gyfer Diwylliant Lleol a Chwaraeon | 6170 | 1.5 |
| **Total** | | **14.0** |

Mae gan CRF bedwar prif faes sy'n cwmpasu Treftadaeth, Creadigol, Diwylliant a Digwyddiadau. Mae cymorth ar gyfer digwyddiadau chwaraeon yn gymwys i gael cefnogaeth gan CRF , mae'r arian ychwanegol hwn yn ein galluogi i ddarparu mwy o gymorth ar gyfer digwyddiadau sy'n ateb y galw cynyddol.

*Nodwn fod cyllideb gyfalaf Cadw wedi gostwng £3.7 miliwn – a allwch egluro'r rhesymau dros y gostyngiad hwn?*

Roedd rhaglen gyfalaf Cadw ar gyfer eleni yn uchelgeisiol iawn, gyda phrosiectau mawr i'w cyflawni ym Porth y Brenin, Caernarfon ac yn Castell Caerffili, yn ogystal â gwaith mewn nifer o safleoedd eraill. Daeth yn amlwg yn gynnar yn y flwyddyn na fyddem yn gallu defnyddio'r holl gyllideb gyfalaf o £8.7m yn y flwyddyn ariannol hon, yn enwedig gyda effaith y pandemig. Felly dychwelwyd cyllid o £3.7m i'r canol yn gynnar yn y flwyddyn, fydd yr arian yma ar gael flwyddyn nesaf er mwyn bwrw mlaen a'r gwaith a gweithio tuag ar ei gwblhau

*Mae'r dyraniadau newydd ar gyfer diwylliant a ddisgrifir yn y Gyllideb Atodol yn cyfateb i fwy na'r Gronfa Adfer Ddiwylliannol gwerth £53 miliwn – a fyddai'n bosibl egluro'r rheswm am hyn?*

Ar y cyfan mae'r gyllideb atodol yn cynnwys cyfanswm cyllid ychwanegol o £67m (adnoddau £64m a £3m cyfalaf) ar gyfer y Gronfa Adfer Diwylliannol £53m a'r Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden £14m. Fel yr eglurwyd, bydd £1.5m yn cefnogi digwyddiadau chwaraeon ac fe'i datgelir yn y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DET/412/20

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

26 Tachwedd 2020

Annwyl Helen,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Tachwedd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 5 Tachwedd, rydych yn holi am ragor o wybodaeth am gymorth i gerddoriaeth fyw gan Cymru Greadigol a'r Chyllideb Atodol 2020-21. Rwyf am ymateb i'ch pwyntiau yn y drefn yr ydych wedi'u codi.

**Cefnogaeth i'r sector gerddoriaeth fyw gan Cymru Greadigol**

*Gall oedi cyn dosbarthu dyraniadau cyllid cymorth Covid-19 – yn enwedig pan fydd gan leoliadau cerddoriaeth a lletygarwch gostau i'w talu nawr – arwain at fusnesau'n mynd i'r wal yn y cyfamser. Gwybodaeth ar yr amserlen ddiweddaraf ar gyfer cael cyllid i leoliadau ac a oes lle i hwyluso'r broses hon.*

Ar wahân i oedi byr pan fu'n rhaid i swyddogion adlewyrchu cyhoeddiad y Canghellor ar ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi o fewn pob cais - yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i osgoi cyllid dwbl – roeddem wedi dechrau gyrru llythyrau cynnig i leoliadau cerddoriaeth yn ystod w/c 9 Tachwedd a gobeithiwn fod wedi cefnogi'r holl fusnesau â oedd yn flaenoriaeth o fewn y pythefnos nesaf.

*Unrhyw ystyriaeth wedi ei roi i rannu adnoddau staff gan dîm yr Economi (sydd â'r sgiliau a'r profiad o ddosbarthu cyllid grant) gyda Cymru Greadigol ar sail amser cyfyngedig i fodloni'r gofynion presennol sy'n cael eu rhoi ar gyllid Cymru Greadigol?*

Roedd swyddogion o dîm Cymru Greadigol yn rhan o dîm dylunio a gweithredu'r Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) a bu'n gweithio gyda chydweithwyr yn Busnes Cymru i gynllunio'r broses ar gyfer y Cronfa Adferiad Diwylliannol Ddiwylliannol (CRF) yn dilyn fframwaith debyg. Gweithiodd nifer o swyddogion yn flaenorol ar draws y pedwar maes allweddol o fewn CRF (creadigol, digwyddiadau, diwylliant a threftadaeth) ar Gam 1 a 2 ERF ac felly roedd ganddynt brofiad o'r systemau a oedd ar waith.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Oherwydd y galw mawr am y gefnogaeth gan CRF bu'n rhaid i swyddogion creu system blaenoriaethu i'r gronfa (rhywbeth nad oedd wedi'i gynnwys yn ERF) i sicrhau bod y cyllid yn cyrraedd y busnesau hynny a ystyriwyd fel y pwysicaf o ran diogelu'r seilwaith creadigol a diwylliannol i'r flwyddyn nesaf, yn unol â nodau cyffredinol y gronfa.

**Cyllideb Atodol 2020-21**

*Mae gan Chwaraeon Cymru £12.5 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu iddo, ond roedd y Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden (roeddem yn deall fod hwn arian newydd) am £14 miliwn. A fyddai'n bosibl egluro'r anghysondeb hwn?*

Mae'r Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden gwerth £14 miliwn yn arian newydd. Dyrannwyd swm o £12.5 miliwn yn uniongyrchol i Chwaraeon Cymru ac mae £1.5 miliwn yn cael ei fuddsoddi a'i neilltuo ar gyfer digwyddiadau chwaraeon drwy'r Gronfa Adfer Diwylliannol. Crynhoir y cyflwyniad yn y Gyllideb Atodol fel a ganlyn:

| **Maes Cyflawni** | **BEL** | **£m** |
|---|---|---|
| Chwaraeon Cymru | 5900 | 12.5 |
| Cymorth ar gyfer Diwylliant Lleol a Chwaraeon | 6170 | 1.5 |
| **Total** | | **14.0** |

Mae gan CRF bedwar prif faes sy'n cwmpasu Treftadaeth, Creadigol, Diwylliant a Digwyddiadau. Mae cymorth ar gyfer digwyddiadau chwaraeon yn gymwys i gael cefnogaeth gan CRF , mae'r arian ychwanegol hwn yn ein galluogi i ddarparu mwy o gymorth ar gyfer digwyddiadau sy'n ateb y galw cynyddol.


*Nodwn fod cyllideb gyfalaf Cadw wedi gostwng £3.7 miliwn – a allwch egluro'r rhesymau dros y gostyngiad hwn?*

Roedd rhaglen gyfalaf Cadw ar gyfer eleni yn uchelgeisiol iawn, gyda phrosiectau mawr i'w cyflawni ym Porth y Brenin, Caernarfon ac yn Castell Caerffili, yn ogystal â gwaith mewn nifer o safleoedd eraill. Daeth yn amlwg yn gynnar yn y flwyddyn na fyddem yn gallu defnyddio'r holl gyllideb gyfalaf o £8.7m yn y flwyddyn ariannol hon, yn enwedig gyda effaith y pandemig. Felly dychwelwyd cyllid o £3.7m i'r canol yn gynnar yn y flwyddyn, fydd yr arian yma ar gael flwyddyn nesaf er mwyn bwrw mlaen a'r gwaith a gweithio tuag ar ei gwblhau

*Mae'r dyraniadau newydd ar gyfer diwylliant a ddisgrifir yn y Gyllideb Atodol yn cyfateb i fwy na'r Gronfa Adfer Ddiwylliannol gwerth £53 miliwn – a fyddai'n bosibl egluro'r rheswm am hyn?*

Ar y cyfan mae'r gyllideb atodol yn cynnwys cyfanswm cyllid ychwanegol o £67m (adnoddau £64m a £3m cyfalaf) ar gyfer y Gronfa Adfer Diwylliannol £53m a'r Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden £14m. Fel yr eglurwyd, bydd £1.5m yn cefnogi digwyddiadau chwaraeon ac fe'i datgelir yn y BEL Diwylliant a Chwaraeon Lleol.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth